# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-17-08)

**Dyddiad: Dydd Iau, 4 Rhagfyr 2008**
**Amser: 12.30pm - 1.21pm**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew R.T. Davies AC, Canol De Cymru

Mike German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Bethan Webber, Clerc

Siân Phipps, Clerc

Alun Davidson, Dirprwy Glerc

Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### Eitem 2: P-03-118 Cymdeithas Canŵio Cymru

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ar lafar gan y deisebwyr.

### Eitem 3: Deisebau newydd

**(i) P-03-184** Tocynnau teithio rhatach ar fysiau mewn ardaloedd gwledig

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

""

**(ii) P-03-190** No Ely Valley Airport Road (NEVAR) - "Na i Ffordd Maes Awyr Dyffryn Elái"

Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Eitem 4: Trafod y dystiolaeth

Trafododd y pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

lansio ymchwiliad i graffu ymhellach ar y ddeiseb hon

rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd am hyn

### Eitem 5: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol (1.20pm - 1.35pm)

PET(3) 17-08 Papur 3

**(i) P-03-107** Papur dyddiol Cymraeg

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

ysgrifennu at Dr Toni Bianchi ynghylch yr ymchwil marchnata a gynhaliwyd ganddo i ddichonoldeb papur newydd Cymraeg.

**(ii) P-03-125** Pont Cleddau

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

gyfeirio'r ddeiseb at Gyngor Sir Penfro i'w ystyried yn unol â threfn y Cyngor

cau'r ddeiseb hon, gan nad oes modd i'r pwyllgor fynd â'r ddeiseb ymhellach

**(iii) P-03-144** Cŵn Tywys y Deillion

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

ysgrifennu i Adran Drafnidiaeth y DU i ofyn am fwy o wybodaeth am y prosiect ymchwil sydd ar waith i arwynebau a rennir

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gofyn iddi roi gwybodaeth i'r pwyllgor am unrhyw gysylltiad sydd gan Lywodraeth y Cynulliad â phrosiect ymchwil yr Adran Drafnidiaeth

**(iv) P-03-145** Tanwydd a chludo nwyddau ar ffyrdd yng Nghymru

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

aros am ymateb Llywodraeth y Cynulliad i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddeiseb hon

**(v) P-03-172** Fferi Abertawe - Cork

Ystyriodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y pwyllgor i:

gael mwy o wybodaeth am yr adroddiad dichonoldeb y cyfeiriwyd ato yn llythyr y Dirprwy Brif Weinidog

gofyn i awdurdod y porthladd am ei ymateb i'r astudiaeth ac a yw'n ymwybodol o unrhyw ffactorau y byddai'n rhwystro adfer y gwasanaeth Abertawe i Cork